

## PRIFYSGOL BANGOR

### PWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH

**Cyfarfod:** 1 Chwefror 2017

**Preseanol:** Yr Athro P Spencer (Cadeirydd), Miss S Barnes, Mr H Ellis, Mr D Fordham, Mrs T Hibbert, Mr A Jones, Dr J Latchford, Ms C Monks, Dr L Murphy, Dr L Jones, Miss E Riches, Mr D Roberts, Mr S Roberts, Yr Athro C Tully, Mr D Williams, Mrs E Parry Williams, Mr G W Jones (Ysgrifennydd).

**Ymddiheuriadau:** Mrs M Lake, Mr S Barnard, Yr Athro J Hughes.

#### 505. COFNODION

Cadarnhawyd a llofnodwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 2 Tachwedd 2016.

#### 506. MATERION YN CODI

- a) Cofnod 500, Trefniadau Archwiliad Rheoli Iechyd a Diogelwch: Mae'r pecyn newydd ar gyfer cynnal archwiliad rheoli iechyd a diogelwch wedi cael ei dreialu yn yr Adran Llyfrgelloedd ac Archifau. Byddwn nawr yn dechrau ar yr amserlen archwilio a'r adran nesaf i gael ei harchwilio fydd yr Adran Chwaraeon a Hamdden.

#### 507. Y CANLLAWIAU DEDFRYDU NEWYDD

Cafwyd cyflwyniad ynglŷn ag effaith y canllawiau dedfrydu. Nodwyd bod y canllawiau yn rhoi cyfarwyddyd i'r llysoedd pan fônt yn rhoi dedfrydau am droseddau'n ymwneud ag iechyd a diogelwch, dynladdiad corfforaethol a hylendid bwyd, ac maent wedi bod mewn grym ers blwyddyn bellach.

Tynnwyd sylw at y pwyntiau allweddol canlynol:

- i. Mae'r Canllawiau yn amlinellu naw o "gamau" ar gyfer:
  - Pennu difrifoldeb y drosedd drwy osod graddau ar gyfer beusrwydd a'r risg o niwed.
  - Cyfeirio at dablau sy'n seiliedig ar faint y sefydliad i ganfod man cychwyn ac ystod dirwyon (h.y. fel bod maint y ddirwy yn cael yr effaith briodol)
  - Addasu'r ddirwy i adlewyrchu nifer o ffactorau, gan gynnwys ffactorau gwaethgol a lliniarol, effaith y ddirwy a phledio'n euog.
- i. Ers 1 Chwefror 2016, mae saith gwaith yn fwy o unigolion wedi cael dedfryd o garchar am droseddau iechyd a diogelwch. Mae'r ffigyrau'n dangos fod **23** o bobl wedi cael dedfryd o garchar, neu ddedfryd o garchar wedi ei gohirio rhwng 1 Chwefror a chanol Medi 2016 (cyfnod o 8 mis). **Cyfradd o 3 y mis.**
- ii. Mwy chwe gwaith yn fwy o ddirwyon o fwy na miliwn o bunnau wedi eu rhoi ers cyflwyno'r canllawiau.

Cydnabuwyd yr angen i ddisbarthu'r wybodaeth. Bydd y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch a'r Grŵp Tasg Iechyd a Diogelwch yn datblygu ac yn cynnal rhaglen addas i gyfathrebu'r newidiadau hyn i grwpiau ac unigolion perthnasol.

**Gweithredu:** Y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch a'r Grŵp Tasg Iechyd a Diogelwch

**508. ADRODDIADAU IS-BWYLLGORAU:**

**508(a) Is-bwyllgor Iechyd a Diogelwch Ymbelydredd**

Cyfarfu'r Is-bwyllgor ar 19 Ionawr 2017 a nodwyd yr eitemau allweddol canlynol:

- i. *Radon:* Cafodd bathodynau monitro tri mis eu gosod mewn dau leoliad dros gyfnod y gaeaf yn 2016/2017. Diben hyn oedd cadarnhau effeithlonrwydd y gwaith trwsio a wnaed.
- ii. *Radon:* Caiff pob arolwg radon hyd yma eu hadolygu yn 2017 i nodi'r adeiladau hynny sydd â mesuriadau radon sy'n agos at y lefel pan fo'n rhaid gweithredu. Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd adeiladau lle gwnaed llawer o waith adnewyddu yn cael eu nodi hefyd ac yn cael eu monitro pan fo hynny'n briodol. Yna bydd bathodynau monitro tri mis yn cael eu gosod ym mhob adeilad perthnasol dros gyfnod y gaeaf yn 2017/2018. Bydd yr arolwg yn costio tua £1.5 mil - £2 fil.
- iii. *Gwaredu Deunyddiau Ymbelydrol:* I gefnogi'r gwaith o ddymchwel rhan o'r Adeilad Coffa, awdurdodwyd gwaredu bron i 5kg o'r stoc ymbelydrol ym mis Ebrill 2016.
- iv. *Arolygiad Cyfoeth Naturiol Cymru a Gwrthderfysgaeth Cymru:* Cadarnhaodd yr arolygiad blynyddol bod trefniadau da ar waith. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn bwriadu cynnal arolygiad llawn, ychwanegol yn 2017.
- v. *Trwyddedau'r Brifysgol:* Er bod y brifysgol yn gweithredu'n braf o fewn terfynau ei thrwyddedau o ran cyfanswm y gweithgarwch ar y safle ac o ran gwaredu gwastraff i garthffosydd ac oddi ar y safle, bydd y trwyddedau stoc a gwastraff yn cael eu haddasu i gynnwys gollyngiadau nwyol 14C a defnydd ychwanegol o 33P.
- vi. *Radiograffeg yn Wrecsam - Ysgol Gnyddorau Gofal Iechyd:* Mae Goruchwyliwr Amddiffyniad rhag Ymbelydredd newydd i fod i gael ei benodi i safle Wrecsam. Mae'r unigolyn dan sylw wedi cael hyfforddiant gan Ymgyngorydd Amddiffyniad rhag Ymbelydredd y Brifysgol a bydd bellach yn cael ei benodi'n ffurfiol yn ysgrifenedig.

**508(b) Adroddiad yr Is-bwyllgor Iechyd a Diogelwch Cemegol a Biolegol**

Cyfarfu'r Is-bwyllgor ar 19 Ionawr 2017. Nodwyd yr eitemau allweddol canlynol:

- i. *Gwastraff Cemegol:* Mae'r Ysgol Cemeg wedi gwella ymhellach y trefniadau ar gyfer storio gwastraff cemegol yn y labordai. Gwneir hyn yn dilyn digwyddiad yn yr ysgol pan gafwyd achos nerthol o orbwysedd mewn Winchester a ddefnyddid i storio gwastraff cemegol.
- ii. *Gwaith gydag Organebau a Addaswyd yn Enetig:* Ac eithrio un project, mae pob project arall sy'n ymwneud ag addasu genetig yn rhai Dosbarth 1 neu'n golygu gwneud addasiadau i anifeiliaid a phlanhigion diberygl ac nid oes yn rhaid hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Mae'r Swyddog Diogelwch Biolegol ar hyn o bryd yn adolygu pob asesiad risg mewn perthynas ag organebau a addaswyd yn enetig. Trefnir cyfarfod o'r Pwyllgor Organebau a Addaswyd yn Enetig yn dilyn yr adolygiad hwnnw.
- iii. *Offer Diogelwch Allweddol:* Amlygwyd pryderon ynglŷn â sicrhau bod offer diogelwch allweddol megis awtoclafau a chypyrddau diogelwch biolegol yn cael eu gwasanaethau a'u cynnal a'u cadw gan na all ymchwilyr unigol gael y cyllid angenrheidiol gan gyrff cyllido / grantiau. Cafodd colegau eu hannheg i feintio'r broblem a mynd i'r afael â chyllido hyn trwy'r rownd gynllunio nesaf. Dylai'r Grŵp Tasg Iechyd a Diogelwch fonitro'r sefyllfa ac adrodd am y sefyllfa maes o law.

**Gweithredu:** Colegau a'r Grŵp Tasg Iechyd a Diogelwch

- iv. *Archwiliad Blynyddol o'r Cyfleusterau Bioberygl*: Cynhaliwyd arolygiad blynyddol o'r cyfleusterau HG2 yn Ionawr 2017.

Roedd y canfyddiadau'n gadarnhaol ac roedd yn amlwg fod gan yr holl staff a myfyrwyr sy'n gweithio yn yr ardaloedd dan sylw ddealltwriaeth dda o'r risgiau a'r gofynion rheoli cysylltiedig.

- v. *Project MSparv*: Er ei bod yn anodd asesu lefel y risg bosibl gan fod y defnydd arfaethedig yn 'anhysbys' ar hyn o bryd, mae trafodaethau wedi dechrau mewn perthynas â dyletswyddau a rhwymedigaethau meddianwyr yr adeilad a'r brifysgol.

## 509. ADRODDIAD Y GRŴP TASG IECHYD A DIOGELWCH

Ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch, mae'r Grŵp Tasg wedi cyfarfod ar un achlysur, a nodwyd y materion canlynol er gwybodaeth:

- i. Asesiad Risg Iechyd a Diogelwch Corfforaethol: Cynhaliwyd yr Asesiad Risg Corfforaethol ar Iechyd a Diogelwch. Mae'r ddogfen yn nodi, yn asesu ac yn blaenoriaethu'r risgiau a'r gwelliannau iechyd a diogelwch sefydliadol ledled y brifysgol.
- ii. Hyfforddiant: Ystyriodd y Grŵp Tasg bapur yn manylu ar hyfforddiant iechyd a diogelwch ledled y sefydliad. Yn sgil hynny, gwneir ychwaneg o waith i wella a chefnogi'r hyfforddiant.
- iii. Goruchwylio Iechyd: Derbyniodd y grŵp adroddiad ynglŷn ag anghenion goruchwylio iechyd a sut y mae'r brifysgol yn cadarnhau nad yw ei gweithgarwch peryglus yn cael effaith ar iechyd y staff a'r myfyrwyr perthnasol.

## 510. ADRODDIAD AR FATERION YSTADAU (GWASANAETHAU EIDDO A CHAMPWS)

Mynegwyd diolch am y gefnogaeth y mae'r Gwasanaethau Eiddo a Champws yn ei chael gan golegau ac adrannau eraill.

Cyflwynwyd papur a nodwyd yr eitemau allweddol canlynol:

- i. *Monitro Iechyd a Diogelwch*: Mae datblygiadau ar y gweill i wella sut mae iechyd a diogelwch yn cael eu monitro gan y Gwasanaethau Eiddo a Champws.
- ii. *Rheoli Asbestos*: Mae'r Cynllun Rheoli Asbestos yn cael ei adolygu er mwyn cynnwys gwell Gweithdrefnau Sicrhau Ansawdd.
- iii. *Meddiannyr Trydydd Parti*: Bydd y Gwasanaethau Eiddo a Champws yn cynnal arolwg meddiannaeth arall i geisio adnabod yr holl feddianwyr nad ydynt yn rhan o'r brifysgol (3ydd parti). Mae hyn mewn ymateb i'r nifer gynyddol o feddianwyr 3ydd parti sy'n meddiannu rhannau o'r ystâd heb fod yr holl gytundebau priodol yn eu lle.
- iv. *Materion Deddfwriaethol a Chydymffurfiaeth*: Mae gwaith cynnal a chadw a gwasanaethu statudol a deddfwriaethol yn parhau i gael ei reoli ac yn parhau i dderbyn adnoddau. Nodwyd hefyd oherwydd cwtogi cyllideb yr adran bod cyfyngu ar y gwaith a wneir mewn rhai meysydd eraill.
- v. *Adnoddau*: Mae cofrestr risg y brifysgol wedi cael ei hadolygu yn dilyn cwtogi cyllidebau sy'n effeithio ar wariant ar staff a gwaith cynnal a chadw.
- vi. *Gwobr*: Mae'r adran wedi cael Gwobr Prif Gontractwr y Flwyddyn yn y National CDM Awards 2016 a drefnwyd gan yr Association of Project Safety. Cafodd y wobwr ei rhoi am y gwaith a wnaeth yr adran yn cwblhau adeilad Pontio.

Aeth y cadeirydd ymlaen i longyfarch yr adran ar dderbyn y wobwr.

Yn dilyn trafodaeth, nododd y cadeirydd bod angen i'r Grŵp Tasg Iechyd a Diogelwch weithio'n agos â'r Gwasanaethau Eiddo a Champws er mwyn mynd i'r afael ag effaith cyfyngu ar adnoddau.

**Gweithredu:** Y Gwasanaethau Eiddo a Champws a'r Grŵp Tasg Iechyd a Diogelwch

**511. EITEMAU GAN AELODAU'R PWYLLGOR**

Dim.

**512. UNRHYW FATER ARALL**

Nodwyd yr eitemau canlynol.

- i. Gwnaed cais i ddarparu cofnodion y Grŵp Tasg Iechyd a Diogelwch i aelodau'r pwyllgor. Cytunwyd ar hyn.

**Gweithredu:** Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 24 Mai 2017 am 10am yn Ystafell Gynhadledd 3 Y Teras.**